

RHAGARWEINIAD

Mae gan lawer o ffermwyr yng Nghymru ddiddordeb mewn amrywiaethu i gynhyrchu cnydau amgen. Mae amryw o gwmnïau'n cynnig contractau i dyfu cnydau amgen, fel Crambe, Camelina, cywarch a llin. Fodd bynnag, gall y dewis cyfyngedig o blaeiddiaid arferol sydd ar gael i'w defnyddio ar rai o'r cnydau hyn achosi problemau gyda rheoli plâu.

➤ Llin a Had Llin

Yn gyffredinol mae nifer y nwyddau amddiffyn cnydau sydd ar gael i'w defnyddio ar gnydau newydd yn cael eu pennu trwy eu perthynas â chnydau mwy cyffredin. Er enghraifft, o ran geneteg mae llin yn debyg iawn i had llin, a chyda'i gilydd maent yn farchnad digon mawr i gyfiawnhau peth buddsoddi agrocemegol. O ganlyniad, mae 20 o gyfansoddion wedi cael eu cymeradwyo'n llawn i'w defnyddio i reoli plâu mewn cnydau llin. Mae profiad ym Mhrifysgol Cymru, Bangor yn awgrymu y gellir tyfu llin a had llin gyda fawr ddim perygl o gael colledion.



Ffig 1: Llin

➤ Cywarch

Yr un modd mae'n bosibl tyfu cywarch ar gyfer ffibr, gan fod amrywiaeth eang o nwyddau a ddefnyddir ar rēp had olew ar gael i'r tyfwr cywarch. Mae profion a gynhaliwyd ym Mangor yn awgrymu y gellir rheoli ymosodiadau gan bryfed a ffwng yn fuan yn y broses dyfu. Fodd bynnag, pan mae'n cael ei dyfu fel cnwd ffibr, gall cywarch weithiau fynd yn 3m o daldra sy'n golygu na ellir ei gyrraedd ond gyda'r offer chwistrellu mwyaf erbyn diwedd y tymor.



Ffig 2: Blaguryn blodyn cywarch

➤ Camelina

Mae llai o nwyddau ar gael ar gyfer cnydau mwy anghyffredin, fel Cydillin (*Camelina sativa*), sy'n gnwd had olew. Nid oes unrhyw chwynladdwyr wedi eu cymeradwyo'n llawn i'w defnyddio gyda'r cnwd hwn ac, o ganlyniad, gall rheoli chwyn fod yn broblem. Yn ffodus, dim ond ychydig o blâu pryfed sy'n ymosod ar Camelina, ac yn gyffredinol mae'r rhywogaeth yn gallu gwrthsefyll pathogenau ffwngaid, ac eithrio llwydni blewog a all fod yn broblem pan dyfir Camelina ar raddfa fawr.



Ffig 3: Camelina

Yn wir, un o fanteision tyfu cnydau lleiafrifol yng Nghymru yw mai ychydig iawn o gronfeydd o blâu ac afiechydon sydd i'w cael yng nghefn gwlad Cymru, felly gall cnydau osgoi ymosodiadau mawr yn aml.

Yn absenoldeb plaeiddiaid arferol, gall tyfwyr fanteisio ar yr amrywiol ddulliau naturiol a diwylliannol a ddefnyddir gan dyfwyr organig i helpu i reoli plâu. Er enghraifft, fe wnaeth un o brojectau CALU edrych a allai hau mwstardau Caliente, a'u haredig i mewn, helpu i leihau ymosodiadau hoelion daear. Y syniad y tu ôl i ddefnyddio mwstardau Caliente yw eu bod yn rhyddhau nwyon wrth iddynt ymddatod yn y pridd a bod y rheini naill ai'n cadw hoelion daear a phlâu pridd eraill draw neu'n eu lladd. Mae yna lawer o syniadau eraill o gwmpas a all fod yn fanteisiol os cânt eu rheoli'n gywir.

Mae manylion pellach ar faterion cyfreithiol a rheolaethol yn ymwneud â phlaleiddiaid ar gael o'r Pesticides Safety Directorate (PSD) yn Efrog (<http://www.pesticides.gov.uk/>). Mae gwybodaeth bellach ar brojectau CALU ar gael yn www.calu.bangor.ac.uk .